

# Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Amgylchedd y DU

Gorffennaf 2020

## Argymhelliad cyffredinol

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r darpariaethau ym Mil Amgylchedd y DU, ar yr amod ei bod yn fodlon ar ymateb y Gweinidog i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.



## Cyflwyniad

- 1.** Cyflwynodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ('y Gweinidog') Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU ('y Memorandwm') ar 26 Chwefror 2020.
- 2.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 1 Mai 2020. Ymestynnwyd y dyddiad cau wedi hynny i 2 Gorffennaf 2020.

### Ein dull gweithredu

- 3.** Cyfeiriwyd Memorandwm atom ychydig cyn y pandemig coronafeirws a'r penderfyniad i atal gwaith ar unrhyw fusnes pwyllgorau'r Senedd nad oedd yn fusnes brys am gyfnod. Arweiniodd hyn at ganslo sesiynau tystiolaeth lafar mewn perthynas â'r Memorandwm. Gwnaethom gais am dystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol. Mae eu cyflwyniad, ynghyd â manylion cyflwyniadau ysgrifenedig rhanddeiliaid, i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
- 4.** Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith.

# 1. Bil Amgylchedd y DU 2020 a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

## Bil Amgylchedd y DU 2020

5. Cyflwynwyd Bil Amgylchedd Llywodraeth y DU ('y Bil') yn Senedd San Steffan ar 30 Ionawr 2020. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol:

“[The Bill] comprises two thematic halves. The first provides a legal framework for environmental governance. The second makes provision for specific improvement of the environment, including measures on waste and resource efficiency, air quality and environmental recall, water, nature and biodiversity, and conservation covenants.”

## Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (“Y Memorandwm”)

Y darpariaethau y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer

---

6. Mae'r Memorandwm yn crynhoi'r darpariaethau y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer (paragraffau 7 i 75). Mae tua hanner y darpariaethau yn gymwys ac yn berthnasol i Gymru.

7. Mae'r Memorandwm yn nodi: “Mae Llywodraeth Cymru, at ei gilydd, yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftwyd”. Fodd bynnag, mae'n amlinellu “tri mater sy'n peri pryder ac sydd heb eu datrys” sy'n ymwneud ag:

- effaith Cymal 19 (na fydd safonau o ran diogelu'r amgylchedd yn is nag ar hyn o bryd) ar gymhwysedd datganoledig;
- y ddyletswydd sydd ar Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i ymgynghori â chyrff llywodraethu amgylcheddol datganoledig Cymal 24(4); a'r
- angen am ddatgymwysiad mewn perthynas â pharagraff 11, Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn cysylltiad â phwerau cydredol sy'n ymwneud â chyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr, ansawdd dŵr, a REACH.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil yr Amgylchedd

---

8. Mae'r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil hwn, sy'n cynnwys diffyg amser o fewn amserlen y Senedd i gyflwyno Bil Amgylchedd.

**9.** Mae'r Memorandwm yn nodi'r canlynol:

“Yn achos pwerau sy'n ymwneud â chyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr, rheoli gwastraff, cynlluniau a chynigion sy'n gysylltiedig â dŵr, rheoleiddio ymgymeryddwyr dŵr a charthffosiaeth, a rheoliadau REACH, mae'r ffaith bod y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr yn rhai cydgysylltiedig yn golygu mai'r ffordd fwyaf effeithiol a phriodol o weithredu yw bod darpariaethau yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd yn yr un offeryn statudol.

**10.** Wrth gyfeirio at gyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr, rheoli gwastraff ac eitemau plastig untro, mae'r Memorandwm yn nodi bod y Bil “yn cynnig cyfle amserol i fwrw ymlaen â hwy”. O ran cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr mae hefyd yn nodi bod “datblygu dull rheoleiddiol sy'n caniatáu cysondeb rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn bwysig am resymau sy'n gysylltiedig â'r farchnad ac mae'n adlewyrchu'r ffaith bod llawer o fusnesau sy'n gweithredu yn y sector yn gweithredu ar draws ffiniau.”

### Tystiolaeth gan y Gweinidog

---

**11.** Esboniodd y Gweinidog fod Bil y DU “yn cefnogi cyd rwymedigaeth y DU i drosi Pecyn Economi Gylchol yr UE (CEP)” ac y bydd “yn cefnogi uchelgais Cymru i symud i economi fwy cylchol hefyd”.

**12.** Dywedodd y Gweinidog fod rhai o'r darpariaethau yn adlewyrchu polisi presennol Llywodraeth Cymru a bod y Bil, felly, yn “galluogi i bolisi Cymru gael ei gyflawni yn y dyfodol”. Mae'r Bil yn cynnig “cyfrwng deddfwriaethol priodol” sy'n:

- “galluogi defnyddwyr i barhau i gael mynediad drwy barhau â dull deddfwriaethol ar gyfer Cymru a Lloegr;
- ymwneud â system ar gyfer y DU gyfan fel yn achos darpariaethau REACH;
- caniatáu ar gyfer cyflawni polisi Cymru yn gyflymach, o gofio'r cyfyngiad ar gapasiti'r Senedd wrth i ni agosáu at ddiwedd y tymor presennol;
- galluogi gweithredu gofynion yr UE.”

### Ein barn ni

Yn ein hadroddiadau niferus ynglŷn â Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â Biliau Amaethyddiaeth a Physgodfeydd y DU, rydym wedi mynegi pryder ynghylch methiant Llywodraeth Cymru i roi cyfiawnhad digonol i

geisio pwerau helaeth ar gyfer gwneud rheoliadau a phwerau gweithredol drwy Filiau'r DU.

Wrth geisio pwerau, rhaid i Lywodraeth Cymru allu egluro pwrpas y pwerau a sut maent yn bwriadu eu defnyddio. Byddem wedi disgwyl i Lywodraeth Cymru fod wedi ystyried y pryderon a leisiwyd yn ein hadroddiadau blaenorol a bod wedi rhoi esboniad mwy cynhwysfawr o'i bwriadau polisi. Eto, nid yw hynny'n wir yn anffodus.

Mae'r Gweinidog wedi rhoi rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol ynghylch pam mae angen cynnwys rhai darpariaethau yn y Bil, er enghraifft y rhai sy'n ymwneud â REACH. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder o hyd ynghylch yr angen am ddarpariaethau eraill, yn enwedig gan nad ydynt yn rhai brys yn ôl pob golwg. At hynny, ymddengys nad oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau cadarn i ddefnyddio rhai o'r pwerau y gwnaed cais ar eu cyfer. Nid yw hwn yn fodel da o ran sut i ddeddfu.

O ystyried y diffyg eglurder ynghylch a fydd y pwerau helaeth hyn i wneud rheoliadau yn cael eu defnyddio, ynghyd â sut a phryd y gwneir hynny, nid yw'n syndod na all y Gweinidog roi asesiad cywir i'r Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â darpariaethau Cymru. Nid yw gofyn i'r Senedd roi cydsyniad deddfwriaethol heb wybodaeth ariannol gywir yn foddhaol.

At hynny, ymddengys y gallai rhoi darpariaethau Cymru ar waith arwain at gynnydd yng nghyfrifoldebau rheoleiddio a gorfodi Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i leihau'r cyllid y mae'n ei ddyrannu i'r sefydliad hwnnw. Nid yw'r Gweinidog wedi egluro sut mae hi'n disgwyl i Gyfoeth Naturiol Cymru allu cyflawni unrhyw gyfrifoldebau newydd yn effeithiol yn wyneb y gostyngiad i'r cyllid.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ymgynghori ar gynigion a/neu reoliadau drafft cyn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir yn y Bil.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau y bydd sefydliadau trydydd parti, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cael adnoddau priodol i gyflawni dyletswyddau neu gyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Bil hwn.

## 2. Rhan 1 - Llywodraethu Amgylcheddol

- 13.** Nod Rhan 1 o'r Bil yw darparu fframwaith newydd ar gyfer llywodraethu amgylcheddol, yn Lloegr yn bennaf, ar ôl ymadael â'r UE, a bydd yn gosod Cynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd Llywodraeth y DU ar sail statudol. Mae'n seiliedig, yn rhannol, ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) drafft gan Lywodraeth y DU a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, i ddiwallu rhwymedigaeth yn Neddf Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.
- 14.** Nid yw cymalau 1 i 18, a Chymal 20, yn berthnasol mewn perthynas â Chymru.
- 15.** Mae Cymal 19 yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo Bil yn y DU a gyflwynir i naill Dŷ'r Senedd neu'r llall, yn cynnwys darpariaeth a fyddai, pe bai'n cael ei ddeddfu, yn gyfraith amgylcheddol, fel y'i diffinnir yng Nghymal 43, i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y Bil wneud datganiad i'r Tŷ. Rhaid i'r datganiad nodi naill ai nad yw'r Bil yn cael yr effaith o leihau lefel yr amddiffyniad a ddarperir gan unrhyw gyfraith amgylcheddol sy'n bodoli, neu na all y Gweinidog wneud datganiad o'r fath ond ei fod yn dymuno i'r Bil fynd yn ei flaen.
- 16.** Mae'r diffiniad o 'gyfraith amgylcheddol' yng Nghymal 43 yn cynnwys 'darpariaeth ddeddfwriaethol ddatganoledig' at ddibenion Cymal 19. Mae'r Memorandwm yn nodi mai "Effaith hynny yw bod y gofynion uchod [datganiadau na fydd y safonau'n is] yn gymwys i'r un graddau i Filiau'r DU sy'n ymwneud â 'chyfraith amgylcheddol' sy'n gymwys yng Nghymru, yn yr unffordd ag y mae'r gofynion hynny'n gymwys yn Lloegr". Mae Llywodraeth Cymru, felly, o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer Cymal 19 a Chymal 43 (i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymal 19). Mae'r Memorandwm yn esbonio nad yw Llywodraeth y DU yn rhannu'r farn hon gan fod y cymal hwn yn ymwneud â phrosesau Seneddol, a bod Senedd y Deyrnas Unedig yn fater a gedwir yn ôl.
- 17.** Mae cymalau 21 i 40 yn darparu ar gyfer corff llywodraethu amgylcheddol newydd, a elwir yn Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd. Byddai gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd swyddogaethau craffu, cynghori a gorfodi mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd a'r amgylchedd naturiol. Er bod y darpariaethau hyn yn berthnasol i'r DU gyfan, dim ond mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol heb ei datganoli y byddai gan y Swyddfa awdurdodaeth yng Nghymru.
- 18.** Mae Cymal 24 (4) yn darparu bod yn rhaid i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ymgynghori â chorff llywodraethu amgylcheddol datganoledig pe byddai'r gwaith y mae'n ei wneud yn berthnasol i gorff o'r fath. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil y DU, gallai hynny gynnwys achosion lle byddai Swyddfa Diogelu'r

Amgylchedd, yn ystod ymchwiliad, yn dod yn ymwybodol o fater amgylcheddol trawsffiniol a allai fod wedi golygu torri deddfwriaeth ddatganoledig y tu allan i'w gylch gwaith, ond y byddai'n syrthio o fewn cylch gwaith y corff llywodraethu amgylcheddol datganoledig.

## System llywodraethu amgylcheddol Gymreig

**19.** Pan gyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Bil Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) drafft (Rhagfyr 2018), fel sy'n ofynnol gan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018, nododd Llywodraeth Cymru yn glir nad oedd y model llywodraethu arfaethedig ar gyfer Lloegr yn ddull ymarferol i Gymru, a'i fod yn anghydnaws â'r setliad datganoli a deddfwriaeth bresennol Cymru. Er gwaethaf hyn, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn barod i drafod dulliau gweithredu ar gyfer y DU gyfan a gweithio i gyd-ddylunio trefniadau gyda llywodraethau eraill yn y DU.

**20.** Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymgyngoriad, Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE. Gwahoddwyd sylwadau ar:<sup>1</sup>

- fylchau mewn egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu yng Nghymru sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE; a
- y ffordd orau o ddarparu fframwaith llywodraethu sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd.

**21.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddeddfu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau ar ôl Brexit yng Nghymru, er bod y llinell amser ar gyfer Bil Cymru yn y dyfodol yn parhau i fod yn aneglur.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

---

**22.** Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafwyd yn ailadrodd y pryderon a leisiwyd gyda'r Pwyllgor hwn yn ei waith blaenorol ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu ar ôl Brexit. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg eglurder ynghylch pa egwyddorion amgylcheddol fydd yn berthnasol i Weinidogion y DU a chyrrff sy'n gweithredu mewn meysydd a gadwyd yn ôl yng Nghymru; y ffaith nad yw Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn ddigon annibynnol ar Lywodraeth y DU; ac y byddai'r strwythur llywodraethu domestig arfaethedig yn wannach na'r trefniadau pan oedd y DU yn aelod o'r UE.

---

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd [crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad](#) ym mis Medi 2019.

**23.** Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru y gallai cael cyrff llywodraethu ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr arwain at wahanol brosesau, dehongliadau a swyddogaethau ar y naill ochr a'r llall i'r ffin, a fyddai'n arwain at risg na fyddai busnesau a sefydliadau'n gweithredu yn yr un math o gyd-destun. Galwodd am eglurder o ran rheoleiddio ac unrhyw amrywiaethau rhanbarthol.

**24.** Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'n 'hanfodol' i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a'r corff llywodraethu newydd yng Nghymru weithio gyda'i gilydd yn agos a gydag unrhyw gyrff goruchwyllo cyfatebol mewn rhannau eraill o'r DU. Nododd y bydd hyn yn lleihau'r risg o wahaniaethau rheoliadol ac yn annog dull mwy cydweithredol o fynd i'r afael â materion trawsffiniol. Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylid amlinellu'r trefniadau cydweithredol mewn deddfwriaeth neu mewn Memoranda Cyd-ddealltwriaeth.

**25.** Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru am gryfhau'r gofyniad i ymgynghori a nodir yng Nghymal 24 er mwyn sicrhau bod Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn cydweithio â chorff llywodraethu amgylcheddol datganoledig – er enghraifft, lle gallai cwyn fod yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl a materion datganoledig.

**26.** Lleisiodd rhai rhanddeiliaid bryder ynghylch pa mor gyflym yr oedd cynigion ar gyfer system llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru yn datblygu o gymharu â'r rhai yn Lloegr. Nododd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol:

“Given the Brexit transition deadline at the end of this year, we are concerned that the environmental ‘governance gap’ is imminent. The UK Government’s intention is for the Office of Environmental Protection to be up and running by 2021. We need legislation in Wales within the same timeframe...Otherwise the people of Wales will face a lengthy delay, with only interim measures in place to uphold their rights around access to environmental justice, and a void in leadership around environmental law.”

**27.** Codwyd pwynt tebyg gan Gyswllt Amgylchedd Cymru, a alwodd ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth 'ar frys'.

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

---

**28.** Pwysleisiodd y Gweinidog yr angen i'r gwahanol gyrff llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr 'weithio'n agos gyda'i gilydd i nodi a gweithredu mewn perthynas â chwynion a allai fod yn drawsffiniol eu natur neu'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl a rhai datganoledig'. Yn ôl y Gweinidog, nid yw'r Bil yn darparu'n ddigonol ar gyfer hyn. Esboniodd:



“[Nid yw'r ddyletswydd i ymgynghori yng Nghymal 24(4)] yn caniatáu ar gyfer nodi'n gynnar ble y gallai fod angen i'r cyrff gydweithio, ac i'r corff Cymreig fod yn rhan o'r penderfyniad ynghylch a yw ymchwiliad yn berthnasol iddo. At hynny, nid yw'n caniatáu i ymchwiliadau gael eu cynnal ar gyfer rhannu arferion gorau ac arbenigedd rhwng y cyrff.”

- 29.** Roedd y Gweinidog, felly, yn ceisio gwelliant i'r Bil “i alluogi trefniadau cydweithredol”, ac roedd yn aros am ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 30.** Rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf am gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer trefniadau llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru. Esboniodd fod y Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid wedi cyflwyno adroddiad ym mis Ebrill 2020. Byddai dadansoddiad o argymhellion y Grŵp yn cael ei gynnal “fel rhan o arfarniad ehangach o opsiynau”. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu diweddariad pellach ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau.
- 31.** Cadarnhaodd y Gweinidog ymrwymiad Llywodraeth Cymru “i ddeddfu er mwyn rhoi sail statudol i'n hagwedd at egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol”. Fodd bynnag, gan fod y rhaglen ddeddfwriaethol dan “bwysau sylweddol”, nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi “unrhyw warant y bydd unrhyw Filiau newydd yn cael eu cyflwyno yn ddiweddarach eleni”.
- 32.** Esboniodd y Gweinidog fod gwaith yn mynd rhagddo “i ddatblygu a pharatoi mesurau dros dro ar gyfer derbyn cwynion am lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru a fyddai'n dod i rym erbyn diwedd y cyfnod pontio”.

## Ein barn ni

Rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu yng Nghymru ar ôl Brexit. Roedd yr adroddiadau hyn yn trafod, ymhlith pethau eraill, yr angen am gorff llywodraethu amgylcheddol i gymryd lle'r swyddogaethau llywodraethu a wneir ar lefel yr UE ar hyn o bryd.

Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid ei bod yn hanfodol bod cyrff llywodraethu'r DU a Chymru yn gallu gweithio gyda'i gilydd, lle bo hynny'n briodol, i ddiogelu'r amgylchedd ledled y DU. Rhaid i Fil y DU ac unrhyw Fil yng Nghymru yn y dyfodol i sefydlu corff llywodraethu ar gyfer Cymru yn unig ddarparu'n ddigonol ar gyfer hyn. Fodd bynnag, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, mae Bil y DU yn methu â gwneud hyn. Rydym yn falch bod y Gweinidog yn cydnabod hyn ac wedi cyflwyno sylwadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn hyn o beth.

Yn fwy cyffredinol, rydym yn rhwystredig iawn ynghylch diffyg cynigion cadarn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer system llywodraethu amgylcheddol newydd i Gymru. Rydym wedi tynnu sylw'n gyson at yr angen i'r gwaith hwn gael ei ddatblygu ac i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei dwyn ymlaen ar y cyfle cyntaf.

Er gwaethaf y pwysau diweddar ar raglen ddeddfwriaethol bresennol Llywodraeth Cymru, dro ar ôl tro mae'r Llywodraeth wedi osgoi ein galwadau am fwy o eglurder ynglŷn â'r amserlen ar gyfer cyflwyno Bil egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar y rhaglen ddeddfwriaethol, ond roedd y diffyg cynnydd yn destun pryder ymhell cyn i'r firws ddod i'r amlwg. Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros ei rhaglen ddeddfwriaethol. Gallai fod wedi blaenoriaethu Biliau sy'n gysylltiedig â Brexit i sicrhau bod Cymru'n gwbl barod i wynebu'r heriau sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r UE, a dylai fod wedi gwneud hynny.

Yn ein hadroddiadau blaenorol, gwnaethom gydnabod yr her o sefydlu system newydd erbyn diwedd y cyfnod pontio a gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i roi mesurau dros dro priodol ar waith i osgoi bwlch llywodraethu. Ddwly flynedd yn ddiweddarach, mae diffyg eglurder o hyd ynghylch beth fydd y mesurau hyn a sut y byddant yn gweithio'n ymarferol.

Nodwn fod y Gweinidog wedi gofyn i grŵp rhanddeiliaid ddatblygu cynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru a'i fod wedi cyflwyno adroddiad ym mis Ebrill 2020. Dywedodd y Gweinidog y byddai dadansoddiad o argymhellion y Grŵp yn cael ei gynnal 'fel rhan o arfarniad ehangach o'r opsiynau'. Nid yw'n glir pam nad yw adroddiad y grŵp wedi'i gyhoeddi na pham na chafwyd ymatebion i'w argymhellion.

Credwn y dylai'r Gweinidog gyhoeddi adroddiad y grŵp ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo.

**Argymhelliad 4.** Cyn y ddadl ar y Memorandwm, rhaid i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ynglŷn â'r cynnydd a wnaed o ran sicrhau diwygiad i Gymal 24 i wneud darpariaeth ar gyfer gwaith cydweithredol rhwng Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac unrhyw gorff llywodraethu cyfatebol yng Nghymru. Os na ellir diwygio Cymal 24, rhaid i'r Gweinidog nodi pa fesurau a gyflwynir i sicrhau y bydd cyrff Cymru a Lloegr neu'r DU yn cydweithio.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog nodi amserlen ar gyfer sefydlu mesurau llywodraethu amgylcheddol dros dro yn dilyn diwedd y cyfnod pontio ac ymadawiad y DU â'r UE.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog gyhoeddi adroddiad y grŵp rhanddeiliaid y gofynnodd iddo ystyried trefniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru yn y dyfodol. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y grŵp.

## 3. Rhan 3 – Effeithlonrwydd o ran Gwastraff ac Adnoddau

**33.** Mae Rhan 3 o'r Bil yn gwneud darpariaethau mewn perthynas ag effeithlonrwydd gwastraff ac adnoddau. Mae'n rhoi pwerau helaeth i awdurdodau cenedlaethol perthnasol, sef Gweinidogion Cymru yn achos Cymru, wneud rheoliadau. Disgrifir rhai o'r rhain fel 'pwerau cydredol plws', a fyddai'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddeddfu dros Gymru mewn maes sydd wedi'i ddatganoli i Gymru, pe bai'n cael cydsyniad Gweinidogion Cymru.

**34.** I grynhoi, mae'r darpariaethau allweddol yn Rhan 3 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i:

- ddiwygio'r cynlluniau cyfrifoldeb cynhyrchwyr, gyda'r nod o wneud cynhyrchwyr yn gyfrifol am y costau net llawn sy'n gysylltiedig â rheoli eu cynhyrchion ar ddiwedd eu hoes (Cymalau 47 a 48, ac Atodlenni 4 a 5);
- pennu gofynion sylfaenol i weithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr ddarparu gwybodaeth am eu cynhyrchion, a gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi rheoliadau (Cymalau 49 a 50, ac Atodlenni 6 a 7);
- cyflwyno cynllun dychwelyd ernes ar gyfer rhai eitemau fel cynwysyddion diodydd untro (Cymal 51 ac Atodlen 8);
- codi tâl ar gyfer eitemau plastig untro a gyflenwir mewn perthynas â nwydd neu wasanaeth (e.e. cynwysyddion plastig neu gyllyll a ffyrac plastig ar gyfer cludfwyd) (Cymal 52 ac Atodlen 9);
- gwneud darpariaeth ar gyfer olrhain gwastraff perthnasol, a sefydlu system olrhain electronig (Cymal 55); a
- gwneud darpariaeth i reoleiddio gwastraff peryglus (Cymal 57).

### Cynigion polisi Llywodraeth Cymru

**35.** Ym mis Chwefror 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, ymgynghoriad ar y cyd ynghylch cynigion i:

- ddiwygio'r system cyfrifoldeb cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pecynnu yn y DU<sup>2</sup>;  
a

---

<sup>2</sup> Er bod polisi gwastraff yn gyfrifoldeb datganoledig, mae'r cynllun cyfrifoldeb cynhyrchwyr ar gyfer gwastraff deunydd pecynnu wedi gweithredu ledled y DU hyd yn hyn. Mae'r rheoliadau cyfrifoldeb

- cyflwyno cynllun dychwelyd ernes<sup>3</sup>.

**36.** Esboniodd y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad y byddai'r mesurau uchod yn cael eu cyflwyno drwy gymryd pwerau mewn deddfwriaeth sylfaenol (Bil yr Amgylchedd). Nododd y byddai rhagor o waith ymgynghori'n cael ei wneud yn 2020, gyda'r nod o gyflwyno system cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr<sup>4</sup> ar gyfer deunydd pecynnu yn 2023, a chynllun dychwelyd ernes o 2023 ymlaen.

**37.** Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Mwy nag Ailgyrchu: Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti* (Rhagfyr 2019), yn adlewyrchu'r nodau uchod. Mae hefyd yn cyfeirio at gynigion ar gyfer treth neu dâl ar gwpanau a chynwysyddion bwyd plastig untro, a "gosod gwaharddiadau neu gyfyngiadau i gael gwared yn raddol ar y defnydd o blastig untro diangen sy'n aml yn cael ei daflu'n sbwriel". Daeth yr ymgynghoriad i ben ddiwedd mis Ebrill 2020. Nid oedd crynodeb o'r ymatebion wedi'i gyhoeddi ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn.

**38.** Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i gyflwyno cynigion i wahardd ystod o eitemau plastig untro, gan gynnwys gwellt a chyllyll a ffyrac plastig, a chynwysyddion polystyren ar gyfer bwyd a diod. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddiad tebyg gan Lywodraeth y DU.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

---

## Cyfrifoldeb cynhyrchwyr

**39.** Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r darpariaethau mewn perthynas â chyfrifoldeb cynhyrchwyr.

**40.** Cyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru at yr angen i ddatblygu systemau cyfrifoldeb cynhyrchwyr sy'n gymesur ac yn addas i Gymru, ac i sicrhau rheoleiddio effeithiol gydag adnoddau digonol.

---

cynhyrchwyr ar gyfer gwastraff deunydd pecynnu presennol yn weithredol ledled Prydain Fawr, ac mae rheoliadau Gogledd Iwerddon union yr un fath.

<sup>3</sup> Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ystod eang o gynwysyddion diodydd y gellid eu cynnwys mewn cynllun (gan gynnwys poteli plastig, caniau dur ac alwminiwm a photeli gwydr), a chynigiodd lefel ernes o 15 ceiniog y cynhwysydd.

<sup>4</sup>Mae cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr yn gosod cyfrifoldeb ar gynhyrchwyr am gost rheoli eu cynhyrchion ar ôl iddynt gyrraedd diwedd eu hoes. Mae'n rhoi cymhelliant i gynhyrchwyr ddylunio eu cynhyrchion mewn modd sy'n ei gwneud yn haws eu hailddefnyddio neu eu datgymalu a'u hailgyrchu.

**41.** Mynegodd Cyswllt Amgylchedd Cymru bryder fod y Bil yn cyfyngu cyfrifoldeb cynhyrchwyr i gostau gwaredu yn unig. Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru am estyn y pŵer cyffredinol yn Rhan 1 o Atodlen 5 fel y gellid codi tâl am y costau amgylcheddol a chymdeithasol sy'n codi drwy gydol cylch bywyd cynhyrchion neu ddeunyddiau. Mynegwyd barn debyg gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol, a fynegodd bryder bod y pŵer cyffredinol yn methu ag ystyried effeithiau'r cylch bywyd llawn, a bod hyn yn hepgoriad sylweddol. Nododd:

“MCS supports full net cost recovery to ensure that producers are fully responsible for the recovery, recycling and disposal of their products including any costs incurred through litter prevention and clean-ups”.

**42.** Dywedodd Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru y dylai cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr fod yn rhan o system gydlynol, ynghyd â mesurau eraill, i wella lefelau ailgylchu. Rhybuddiodd:

“The proposals for EPR reform – combined with the parallel changes proposed for kerbside collections, the introduction of a deposit scheme, and the plastics packaging tax – increase the risk of system failure. WESA is concerned that the multiple concurrent radical changes have the potential to distort the market and lead to unintended negative consequences.”

## Cynlluniau dychwelyd ernes

**43.** Roedd cefnogaeth eang i'r darpariaethau hyn. Gwnaeth sawl tyst sylwadau ynglŷn â manylion cynlluniau posibl, a fydd yn fater i'r Gweinidog a'r Senedd eu hystyried maes o law.

## Codi tâl am eitemau plastig untro

**44.** Roedd cefnogaeth eang i'r darpariaethau mewn perthynas â chodi tâl am eitemau plastig untro.

**45.** Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid ymestyn y pwerau codi tâl y tu hwnt i blastig i gynnwys deunyddiau eraill. Byddai hyn yn datgymhell cynhyrchwyr rhag disodli plastig gyda deunyddiau eraill sy'n niweidiol i'r amgylchedd ar gyfer eitemau untro. Nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru y byddai diwygio'r Bil yn y modd hwn yn rhoi hyblygrwydd pellach o ran sut y byddai Cymru'n codi tâl. Ychwanegodd:

“The Bill needs to be ‘future proof’ and anticipate that new single-use products can be created, still out of materials that are very difficult to recycle, degrade or re-purpose.”

**46.** Galwodd Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru am ddiffiniad clir o ‘untro’, yn unol â’r diffiniad a ddefnyddir yng Nghyfarwyddeb Plastig Untro yr UE.

**47.** Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer treth deunydd pecynnu plastig. Awgrymodd y dylid ystyried sut y byddai’r taliadau newydd arfaethedig yn rhyngweithio â threth arfaethedig ar blastig i sicrhau eu bod yn ategu ei gilydd i ysgogi newid priodol o ran ymddygiad ac yn osgoi canlyniadau anfwriadol.

### Olrhain gwastraff

**48.** Cefnogodd Cyfoeth Naturiol Cymru’r darpariaethau mewn perthynas ag olrhain gwastraff, a fyddai’n golygu y gellid cyflwyno system electronig orfodol ar gyfer olrhain gwastraff. Nododd:

“Having the ability to use live data and information to better understand where waste is generated and where it goes, including where it leaks through the system or is handled illegally, either domestically or abroad will enable our regulatory focus to be more effective complementing our monitoring compliance at waste management sites and assisting in our efforts to tackle waste crime.”

**49.** Gwnaed pwyntiau tebyg gan Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru, a nododd y dylai unrhyw system newydd allu rhyngweithio’n hawdd â systemau electronig presennol a weithredir gan aelodau’r Gymdeithas er mwyn osgoi dyblygu gwaith/systemau TG diangen.

### Tystiolaeth gan y Gweinidog

---

**50.** Esboniodd y Gweinidog fod y darpariaethau yn Rhan 3 yn rhoi “cyfres hanfodol o ysgogiadau deddfwriaethol” a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymrwymadau ac uchelgeisiau a nodir yn *Mwy nag Ailgylchu: Strategaeth i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti*. At hynny, mae’r darpariaethau’n rhoi pwerau i gyflwyno newidiadau rheoliadol yn dilyn ymadawiad y DU â’r UE.

**51.** Dywedodd y Gweinidog fod gwaith yn parhau ar raglen ar y cyd â chenhedloedd eraill y DU i ddatblygu cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr.

**52.** Dywedodd y Gweinidog hefyd fod gwaith yn parhau gyda Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes. Roedd ail ymgynghoriad yn cael ei baratoi ynglŷn â manylion y Cynllun Dychwelyd Ernes a'r ffordd orau o'i weithredu. Ychwanegodd:

“Mae yna fanteision posibl i gynllun ar y cyd, ond mae'n bwysig ei fod yn adlewyrchu anghenion Cymru hefyd. Os na fydd cynllun ar y cyd yn cyflawni hyn, yna bydd Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer Cymru'n unig yn cael ei ystyried.”

**53.** Esboniodd y Gweinidog nad oedd y gwaith manwl wedi'i gwblhau eto ar y trefniadau am oruchwyliaeth reoleiddiol. Cafwyd trafodaethau ar lefel swyddogol ynglŷn â rôl bosibl Cyfoeth Naturiol Cymru o ran rheoleiddio'r Cynllun a byddent yn parhau wrth i'r cynigion ddatblygu.

**54.** Gan gyfeirio at sut mae'r pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer codi tâl am eitemau plastig untro yn cyd-fynd â chynigion Llywodraeth Cymru i wahardd rhai plastigau untro, dywedodd y Gweinidog:

“Mae'r gwaharddiad arfaethedig ar eitemau plastig untro'n canolbwyntio ar restr ddiffiniedig o eitemau a welir yn aml yn yr amgylchedd morol ledled yr Undeb Ewropeaidd, ac mae dewisiadau amgen di-blastig ar gael yn rhwydd yn eu lle. Bydd y pwerau hyn yn caniatáu inni, os oes angen, godi taliadau am eitemau plastig untro problemus eraill lle gallai gwaharddiadau llwyr neu gyfyngu ar werthu fod yn llai ymarferol.”

**55.** Esboniodd fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â threth neu dâl ar gwpanau plastig untro. Pe bai treth, yn hytrach na thâl, yn cael ei dewis fel yr opsiwn gorau, byddai angen i Lywodraeth y DU gymeradwyo cynigion trwy'r mecanwaith y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf Cymru.

**56.** Gan ymateb i'r awgrym y dylid ymestyn y pwerau i godi tâl am eitemau untro i ddeunyddiau eraill ar wahân i blastig, dywedodd y Gweinidog:

“Er bod Llywodraeth y DU wedi ystyried ymestyn y pŵer hwn i ddeunyddiau eraill, roedd yr amserlen dynn sydd ei hangen i ddatblygu'r Bil a diffyg dystiolaeth ehangach yn gwneud y dull hwn yn anymarferol. Fodd bynnag, pan fydd y pwerau hyn wedi'u sefydlu, gallai Llywodraeth Cymru ystyried diwygio'r ddeddfwriaeth maes o law fel ei bod yn cynnwys eitemau eraill pe ystyrid bod gwneud hynny'n briodol.”



## Ein barn ni

Yn ein dogfen “Adroddiad y Pwyllgor ar bolisiâu a chynigion sy’n ymwneud â llygredd plastig a gwastraff deunydd pecynnu”, gwnaethom argymhell “Ni waeth beth yw canlyniadau’r ymgynghoriad ar y cyd â DEFRA ac unrhyw benderfyniadau dilynol gan Lywodraeth y DU, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynllun cynhwysfawr ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yng Nghymru”. Nodwn sylwadau'r Gweinidog fod gwaith yn parhau gyda Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes. Rydym yn llwyr gefnogi ei sylwadau y bydd hi’n cyflwyno, os oes angen, gynllun ar gyfer Cymru yn unig.

Rydym yn dal i fod o’r farn y dylai’r Cynllun Dychwelyd Ernes fod yn berthnasol i’r amrywiaeth ehangaf o gynwysyddion fel na roddir unrhyw gyfyngiadau ar faint y cynwysyddion sy’n gymwys ar gyfer y cynllun. Rydym yn dal i gredu, os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu cyflwyno cynllun sydd â chwmpas culach, y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ar gynllun penodol ar gyfer Cymru, gyda Chynllun Dychwelyd Ernes â’r chwmpas ehangaf fel yr opsiwn a ffefrir ac a argymhellir.

Byddem yn ddiolchgar pe bai’r Gweinidog yn rhoi gwybodaeth bellach i’r Pwyllgor am y gwaith sy’n cael ei wneud i asesu’r sylfaen dystiolaeth ar gyfer treth neu dâl ar blastigau untro.

Credwn y dylai’r Gweinidog gadarnhau’r amserlen ar gyfer cyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a Chynllun Dychwelyd Ernes a mesurau mewn perthynas â phlastigau untro.

Nodwn fod ymgynghoriad Mwy nag Ailgylchu Llywodraeth Cymru wedi dod i ben ym mis Ebrill 2020. Nid yw’n eglur hyd yn hyn sut y bydd y darpariaethau ym Mil y DU a’r cynigion yn yr ymgynghoriad hwnnw yn cyd-fynd â’i gilydd. Byddem yn ddiolchgar am gael eglurhad gan y Gweinidog ar y mater hwn. Dylai’r Gweinidog hefyd egluro sut y caiff y Bil hwn ei ddefnyddio i gefnogi’r adferiad gwyrdd ôl-Covid-19.

Yn olaf, yn ein hadroddiad, gwnaethom argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru i leihau gwastraff a llygredd plastig, yn seiliedig ar y model ar gyfer lleihau allyriadau yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Derbyniwyd yr argymhelliad.

Mae’r model hwnnw’n cynnwys targed cyffredinol, uchelgeisiol sy’n cynnwys targedau dros dro, ac mae’n cynnwys gofynion adrodd. Er ei fod ymhell o fod yn berffaith, mae’r dull yn cyflawni swyddogaeth bwysig fel rhywbeth sy’n ysgogi

polisiâu. Nid oes unrhyw fesurau o'r fath wedi'u cynnwys ym Mil y DU. Dylai'r Gweinidog roi eglurhad o sut yn union y mae'n bwriadu rhoi argymhelliad y Pwyllgor ar waith, o ystyried ei bod yn ei dderbyn.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog ymrwmo y dylai Cynllun Dychwelyd Ernes Llywodraeth Cymru gwmpasu'r amrywiaeth ehangaf o gynwysyddion fel na roddir unrhyw gyfyngiadau ar faint na math y cynwysyddion sy'n gymwys ar gyfer y cynllun.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog roi gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud i asesu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer treth neu dâl ar eitemau plastig untro.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog roi amserlen ar gyfer cyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a Chynllun Dychwelyd Ernes a mesurau mewn perthynas â phlastigau untro.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd y darpariaethau yn y Bil yn cael eu defnyddio i weithredu'r cynigion yn ymgynghoriad "Mwy nag Ailgylchu" Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dull ar gyfer lleihau gwastraff a llygredd plastig yn seiliedig ar y model a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dylai'r dull gynnwys targed cyffredinol, targedau dros dro a gofynion adrodd.

## 4. Rhan 4 - Ansawdd Aer ac Adalw Amgylcheddol

**57.** Mae Rhan 4 o'r Bil yn ymdrin ag ansawdd aer ac adalw cynhyrchion am resymau amgylcheddol. Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau mewn perthynas ag ansawdd aer yn berthnasol i Loegr yn unig. Er bod y darpariaethau mewn perthynas ag adalw cynhyrchion am resymau amgylcheddol yn berthnasol i'r DU gyfan, nid ydynt yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, felly ni cheisir cydsyniad.

**58.** Mae cymal 69 o'r Bil yn cyflwyno Atodlen 11, sy'n diwygio Deddf yr Amgylchedd 1995. O dan Ddeddf 1995, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynhyrchu strategaeth ansawdd aer genedlaethol sy'n cynnwys Prydain Fawr i gyd. Rhaid i'r strategaeth gynnwys safonau, amcanion a mesurau ar gyfer gwella ansawdd aer amgylchynol (awyr agored).

**59.** Mae paragraff 2 o Atodlen 11 yn dileu'r gofyniad i'r strategaeth gwmpasu Prydain Fawr i gyd. Yn ôl y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, effaith hyn yw nad oes "unrhyw amheuaeth mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am strategaeth genedlaethol ar ansawdd aer mewn perthynas â Chymru, ac mae hefyd yn adlewyrchiad mwy cywir o'r sefyllfa bresennol a natur ddatganoledig y rôl hon."

### Cynigion polisi Llywodraeth Cymru

**60.** Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymgyngoriad, Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach Mae'n amlinellu ymrwymiad ac uchelgeisiau hirdymor Llywodraeth Cymru i wella ansawdd aer. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo hefyd i gyhoeddi Papur Gwyn ar Ddeddf Aer Glân cyn diwedd tymor y Senedd hon.

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

---

**61.** Cefnogodd Asthma UK a British Lung Foundation Cymru y diwygiadau i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel ffordd o egluro mai Llywodraeth Cymru yn unig sy'n gyfrifol am gyhoeddi strategaeth ansawdd aer genedlaethol ar gyfer Cymru. Nododd:

"By publishing the strategy at a devolved level, all interested parties can seek to support the Welsh Government during the process and cater

the plan to the unique geography, demography and economy of Wales.”

**62.** Awgrymodd Asthma UK a'r British Lung Foundation y gallai nifer o'r darpariaethau ar gyfer Lloegr gael eu hefelychu mewn Bil Aer Glân Cymru yn y dyfodol.

### Tystiolaeth gan y Gweinidog

---

**63.** Mae Rhan 2 o Atodlen 12 y Bil yn diwygio Deddf 1993 i alluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi tanwydd awdurdodedig a lleoedd tân eithriedig trwy restr sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae'r system restrau eisoes ar waith yn Lloegr a'r Alban ac felly mae'r darpariaethau yn sicrhau bod y trefniadau yng Nghymru yn cyd-fynd â gweddill y DU.

**64.** Esboniodd y Gweinidog mai effaith y diwygiad i Ddeddf 1993 yw “creu dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi rhestr ar gyfer cofnodi tanwyddau awdurdodedig a mathau eithriedig o leoedd tân y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon yn Ardaloedd Rheoli Mwg Cymru ac i symud oddi wrth wneud is-ddeddfwriaeth i gyflawni'r nod hwn”.

**65.** Yn ôl y Gweinidog, cafodd y ddarpariaeth hon ei chynnwys yn y Bil er mwyn “sicrhau manteision i weithgynhyrchwyr a defnyddwyr cyn gynted â phosibl”. Er enghraifft, lleihau'r oedi rhwng cael argymhellion ynghylch cynhyrchion i'w defnyddio a gosod cynhyrchion ar y farchnad. Dywedodd y bydd budd amgylcheddol hefyd “gan y bydd gwella sut y gweithredir y gyfundrefn rheoli mwg yng Nghymru yn ei gwneud yn haws i nodi cynhyrchion y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon mewn ardaloedd rheoli mwg”.

**66.** Nododd y Gweinidog fod y ddarpariaeth “yn welliant i weithrediad y gyfundrefn rheoli mwg yng Nghymru yn hytrach na newid polisi”.

### Ein barn ni

Rydym yn cydnabod bod pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ac ar ei hadnoddau staffio a'i chapasiti. Byddem yn ddiolchgar felly pe gallai'r Gweinidog gadarnhau a yw hi o hyd yn bwriadu cyflwyno Papur Gwyn ar Fil Aer Glân cyn diwedd tymor y Senedd hon.

O ystyried bod system sy'n gyfwerth â'r system restrau y darperir ar ei chyfer yn Rhan 2 o Atodlen 12 eisoes ar waith yn Lloegr a'r Alban, byddem yn ddiolchgar

am wybodaeth bellach gan y Gweinidog ynghylch pryd y mae'n bwriadu cyflwyno'r darpariaethau mewn perthynas â Chymru.

**Argymhelliad 12.** Dylai'r Gweinidog egluro amserlenni arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y papur gwyn ar y Bil Aer Glân ac ar gyfer cyflwyno'r system restrau sy'n deillio o Ran o Atodlen 12 o Fil y DU.

## 5. Rhan 5 – Dŵr

**67.** Mae Rhan 5 o'r Bil yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol ac yn gwneud darpariaeth newydd mewn perthynas ag adnoddau dŵr; ansawdd dŵr; rheoleiddio cwmnïau dŵr a charthffosiaeth; a phrisio tir mewn ardaloedd draenio mewnol.

### Cynlluniau a chynigion (Cymalau 75 a 76)

**68.** Mae cymal 75 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr):

- i orchymyn cwmnïau dŵr i baratoi a chyhoeddi cynigion ar y cyd<sup>5</sup>, ac
- i wneud rheoliadau sy'n gosod y weithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynigion ar y cyd, cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder.

**69.** Mae hefyd yn diddymu rhai gofynion gweithdrefnol o ran paratoi Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr yn Neddf Diwydiant Dŵr 1991 ('Deddf 1991'), a fydd, yn lle hynny, yn cael eu nodi mewn rheoliadau.

**70.** Mae Cymal 76 yn gosod gofyniad ar gwmnïau carthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr i baratoi a chyhoeddi cynllun rheoli draenio a charthffosiaeth, ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer adolygu a diwygio cynlluniau. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru (a'r Ysgrifennydd Gwladol) wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynllun, a rhoi cyfarwyddiadau.

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

---

**71.** Roedd cefnogaeth eang i'r darpariaethau mewn perthynas â chynlluniau a chynigion. Dywedodd OFWAT:

“We support these clauses which remove perceived inflexibilities in the current framework for water resources management planning, and enable governments and regulators to require companies to collaborate to drive effective water resources planning”.

---

<sup>5</sup>Diffinnir cynnig ar y cyd fel un sy'n nodi mesurau y gall y cwmnïau eu cymryd ar y cyd at ddibenion gwella sut caiff adnoddau dŵr eu rheoli a'u datblygu. Byddai cynnig ar y cyd yn rhywbeth ar wahân i Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr y mae'n ofynnol i bob cwmni ei baratoi.

**72.** Yn ôl OFWAT, mae'r diffyg prosesau cynllunio statudol ar hyn o bryd wedi cael ei ystyried yn rhwystr o ran cyflawni gwaith cynllunio dŵr gwastraff hirdymor yn effeithiol ers tro.

**73.** Pwysleisiodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru bwysigrwydd cynlluniau statudol o ystyried yr heriau sy'n wynebu seilwaith sy'n heneiddio a lefelau uwch o law a risg uwch o lifogydd yng Nghymru. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y byddai cyflwyno cynlluniau statudol yn gam cadarnhaol, a fyddai'n helpu o ran cynllunio ar gyfer buddsoddi.

**74.** Lleisiodd Hafren Dyfrdwy a Chyfoeth Naturiol Cymru bryder bod cwmpas y term 'rheoli draenio a charthffosiaeth' a ddefnyddir yng Nghymal 76 yn gulach na 'rheoli draenio a dŵr gwastraff' – y term a fabwysiadwyd eisoes gan y diwydiant dŵr. Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai rhai manteision yn gysylltiedig â defnyddio'r term 'rheoli dŵr gwastraff' i alinio â'r cynlluniau sy'n cael eu paratoi ar hyn o bryd gan gwmnïau dŵr a chanllawiau anstatudol a ddatblygwyd gan y sector.

### Rheoleiddio ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth (Cymalau 77 a 79)

**75.** Mae Cymal 77 yn rhoi pŵer i OFWAT fynnu gwybodaeth gan ymgwymerwyr dŵr neu garthffosiaeth neu ddeiliaid trwydded cyflenwi dŵr neu garthffosiaeth at ddibenion monitro. Mae Cymal 79 yn galluogi dogfennau a gyflwynir o dan Ddeddf 1991 gael eu hanfon yn electronig.

#### Tystiolaeth gan randdeiliaid

---

**76.** Esboniodd OFWAT fod Deddf 1991 yn gosod dyletswydd statudol arno i adolygu gweithgareddau cwmnïau dŵr ond nid yw'n rhoi pŵer cyfatebol iddo fynnu gwybodaeth at ddibenion cyflawni'r ddyletswydd honno. Dywedodd fod y pŵer yng Nghymal 77 yn mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn.

**77.** Dywedodd OFWAT y byddai'r darpariaethau i'w alluogi i gyflwyno dogfennau yn electronig yn golygu y gellid moderneiddio gwasanaeth dogfennau OFWAT, yn unol â'r rhai ar draws llawer o weddill yr economi.

### Ansawdd dŵr (Cymal 82)

**78.** Mae Cymal 81 yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddiwygio neu addasu deddfwriaeth ansawdd dŵr penodedig:

- i wneud darpariaeth i'r sylweddau gael eu hystyried wrth asesu statws cemegol dŵr wyneb neu ddŵr daear; ac

- i nodi safonau ar gyfer y sylweddau hynny neu mewn perthynas â statws cemegol dŵr daear.

**79.** Byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu gwneud rheoliadau mewn perthynas â Chymru ar ran Gweinidogion Cymru, yn amodol ar gael eu cydsyniad.

**80.** Mae Cymal 82 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru y gellir ei gymharu'n fras â'r pŵer yng Nghymal 81.

#### Tystiolaeth gan randdeiliaid

---

**81.** Wrth wneud sylwadau ar y pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ansawdd dŵr, nododd Hafren Dyfrdwy:

“As new pesticide and herbicide products come onto the market, the water companies are continually having to reassess their water treatment processes for new chemicals, some of which will be very costly to treat as well as having the potential to cause Water Framework Directive failures. Therefore, the ability for Ministers to modify water quality legislation is welcomed.”

**82.** Lleisiodd Cyswllt Amgylchedd Cymru bryder bod y pwerau'n eang ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio rheoliadau sy'n rhoi Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yr UE ar waith. Dywedodd:

“There may be some justification for a power to make technical updates to regulations, but this should not be a licence to weaken important targets via secondary legislation.”

**83.** Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru am i Cymal 82 gael ei ddileu neu ei ddiwygio i sicrhau na ellir gwanhau targedau a safonau heb ymgynghoriad cyhoeddus trylwyr a chyngor gwyddonol.

**84.** Tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw hefyd at yr angen i sicrhau na fydd safonau yn cael eu gostwng. Tynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd dull gweithredu sy'n gyson yn genedlaethol.

#### Tystiolaeth gan y Gweinidog

---

**85.** Dywedodd y Gweinidog fod Rhan 5 “yn cyflwyno amrywiaeth o fesurau i gryfhau cydnerthedd gwasanaethau dŵr a gwastraff dŵr drwy wella trefn gynllunio hirdymor y diwydiant dŵr a moderneiddio'r ffordd y mae cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn cael eu rheoleiddio i'w gwneud yn fwy hyblyg a thryloyw.”



**86.** Yn ôl y Gweinidog, “mae'r pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â dŵr yn cyd-fynd â'r ymrwymadau yn Strategaeth Ddŵr i Gymru Llywodraeth Cymru”. Dywedodd y bydd peidio â chael y pwerau hyn yn cael effaith negyddol ar allu Gweinidogion Cymru i alinio ag ymrwymadau yn y Strategaeth a symud tuag at “ddull ataliol” fel egwyddor allweddol o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

**87.** Dywedodd y Gweinidog nad oes gan Lywodraeth Cymru “amserlen ar gyfer defnyddio [y pwerau yn Rhan 5]” ac nad oes ganddi unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr lunio cynigion ar y cyd ar gyfer gwella sut caiff adnoddau dŵr eu rheoli a'u datblygu. Ychwanegodd y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid ynglŷn â'r holl reoliadau arfaethedig, a chyn gwneud cyfarwyddiadau.

**88.** Wrth ymateb i bryderon am y derminoleg a ddefnyddir yn Rhan 5, eglurodd y Gweinidog “yn ymarferol, mae 'rheoli draenio a charthffosiaeth' yn golygu'r un peth â "rheoli draenio a dŵr gwastraff". Dywedodd fod y term 'rheoli carthffosiaeth' “yn cysoni'r ymadrodd a'r diffiniad â'r derminoleg a ddefnyddir yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991”.

## Ein barn ni

Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid ynglŷn â'r holl reoliadau arfaethedig, a chyn gwneud cyfarwyddiadau dan Ran 5.

Er gwaethaf hyn, nodwn y pryderon a fynegwyd ynghylch Cymal 82. Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid ynghylch pa mor bwysig yw sicrhau nad yw'r darpariaethau ynghylch ansawdd dŵr yn caniatáu gostyngiad mewn safonau amgylcheddol.

Er ein bod yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn arfer eu pwerau o dan Gymal 82, nid oes unrhyw ofyniad i ofyn am gyngor gwyddonol. Credwn y dylai'r Gweinidog geisio diwygio Cymal 82 i ofyn am gyngor gwyddonol cyn arfer y pwerau a nodir yn y cymal hwnnw. Os nad oes modd sicrhau diwygiad o'r fath, dylai'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau y dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gyngor gwyddonol cyn arfer y pwerau.

**Argymhelliad 13.** Dylai'r Gweinidog ailddatgan ei hymrwymiad y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid ynglŷn â'r holl reoliadau arfaethedig a chyn gwneud cyfarwyddiadau sy'n codi o'r darpariaethau yn Rhan 5 o Fil y DU.

**Argymhelliad 14.** Dylai'r Gweinidog geisio diwygio Cymal 82 i ofyn am gyngor gwyddonol cyn arfer y pwerau a nodir yn y cymal hwnnw. Os nad oes modd cyflwyno diwygiad, dylai'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau y dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gyngor gwyddonol cyn arfer y pwerau.

## 6. Rhan 8 – Darpariaethau Amrywiol a Chyffredinol

**89.** Mae Rhan 8, ymhlith pethau eraill, yn gwneud darpariaeth ar gyfer diwygio deddfwriaeth REACH.<sup>6</sup> Mae Rheoliad REACH (a deddfwriaeth ddiwygio'r DU) ar waith ledled y DU ond mae'n ymwneud â chymysgedd o faterion datganoledig a materion a gadwyd yn ôl.

**90.** Mae Cymal 125 ac Atodlen 19 o'r Bil ar reoleiddio cemegau yn berthnasol i'r DU gyfan ac yn berthnasol i'r DU gyfan. Maent yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio Erthyglau Rheoliad REACH a Rheoliadau Gorfodi REACH, gyda chydysniad Gweinidogion Cymru. Darperir pŵer hefyd i Weinidogion Cymru i ddiwygio Rheoliadau Gorfodi REACH o dan y ddarpariaeth hon, i'r graddau y byddai arfer y pŵer o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Byddai rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**91.** Mae datganiad polisi Llywodraeth y DU ar y Bil yn dweud y byddai'r pŵer yn sicrhau y gall yr Ysgrifennydd Gwladol gymryd camau i sicrhau 'trosglwyddiad didrafferth' i system reoleiddio cemegau yn y DU ar ôl ymadael â'r UE.

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

---

**92.** Croesawodd Cyfoeth Naturiol Cymru gynnwys y darpariaethau mewn perthynas â rheoliadau cemegau. Credai y byddai'n 'hanfodol' i REACH barhau mewn modd sy'n gyson yn genedlaethol at y dyfodol. Ychwanegodd:

“REACH required the identification and gathering of knowledge about new chemicals or changes in chemical levels in the environment. This function of compiling a ‘watch list’ for future potentially harmful chemicals needs to be provided at a UK level, to ensure that regulation is fit for purpose now and in the future.”

---

<sup>6</sup> Mae Rheoliad REACH yn cyfeirio at Reoliad yr UE ar gemegau sydd, ymhlith pethau eraill, yn ei gwneud yn ofynnol i sylweddau cemegol sy'n cael eu cynhyrchu neu eu mewnforyo i'r UE gael eu cofrestru gydag Asiantaeth Cemegau Ewrop ynghyd â data diogelwch am y cemegyn, cyn eu rhoi ar y farchnad. Mae'n darparu mecanwaith ar gyfer gosod cyfyngiadau ar weithgynhyrchu a defnyddio rhai cemegau peryglus. Mae REACH yn parhau i gael yr un effaith yn y DU tan ddiwedd y cyfnod gweithredu. Yn absenoldeb unrhyw gytundeb â'r UE i'r gwrthwyneb, bydd REACH yn cael ei gadw mewn deddfwriaeth ddomestig ar ddiwedd y cyfnod gweithredu.

## Tystiolaeth gan y Gweinidog

---

**93.** Esboniodd y Gweinidog fod darpariaethau REACH yn y Bil yn angenrheidiol i sicrhau system effeithiol ar gyfer rheoli cemegau. Dywedodd y byddai newid o system sy'n cynnwys 28 Aelod-wladwriaeth i un sy'n cynnwys un wladwriaeth a phedair gwlad yn golygu bod rhai agweddau ar y drefn bresennol yn "anymarferol neu'n orfeichus ar fusnesau". Ychwanegodd:

"Heb y pwerau hyn, byddai'n rhaid i UK REACH weithredu yng nghydestun Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE. Yn y sefyllfa hon, gallem wynebu nifer o risgiau a materion yn gyflym...Mae'n bosibl y bydd angen y pwerau hefyd i adlewyrchu newidiadau i drefniadau'r UE rydym am eu cynnal."

## Ein barn ni

Nodwn na fynegodd rhanddeiliaid unrhyw bryderon mewn perthynas â'r darpariaethau hyn.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog nodi pa fecanweithiau sydd ar waith neu a fydd yn angenrheidiol i sicrhau y gall REACH barhau mewn modd cyson ar draws pedair gwlad y DU yn y dyfodol.

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog nodi pa fecanweithiau sydd ar waith neu a fydd yn angenrheidiol i sicrhau y gall REACH barhau mewn modd cyson ar draws pedair gwlad y DU yn y dyfodol.

# Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru

Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 17 Ebrill 2020

Llythyr oddi wrth Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor, 14 Mai 2020

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
<b>EB 01 ac EB 01a</b>	Cyswllt Amgylchedd Cymru
<b>EB 02</b>	Cyswllt Amgylchedd Cymru
<b>EB 03</b>	Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr
<b>EB 04</b>	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
<b>EB 05</b>	Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru
<b>EB 06</b>	Ofwat
<b>EB 01 ac EB 01a</b>	Hafren Dyfrdwy
<b>EB 08 ac EB 08a</b>	Cyfoeth Naturiol Cymru
<b>EB 09</b>	Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
<b>EB 10</b>	Asthma UK a'r British Lung Foundation
<b>EB 11</b>	Wyeside Consulting Ltd